# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Agenda (SLC (3)-12-08)

**Dyddiad: 13 Mai 2008**
**Amser : 8.45am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd**

### Eitem 1:Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

### Eitem 2: Offerynnau ac offerynnau drafft na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2.

### Eitem 2.1: Offerynnau drafft sy'n agored i gael eu cymeradwyo yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn gadarnhaol)

**SLC153 - Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Diwygio) 2008** Y weithdrefn gadarnhaol. Fe'u gwnaed ar 2008. Yn dod i rym ar 2008. - yn diwygio Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 2007 (sy'n ymdrin â swyddogaethau gweinyddol a swyddogaethau strategol ehangach y Comisiynydd) i addasu pob cyfeiriad ynddynt at y Cynulliad fel y cyfansoddwyd ef gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, cyfeiriadau at y Cynulliad fel y cyfansoddwyd ef gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, y Prif Weinidog, Llywodraeth Cynulliad Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol fel bo'n briodol.

### Eitem 2.2: Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

**SLC150 - Rheoliadau Gwaith Stryd (Ffioedd Arolygu) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2008** Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 29 Ebrill 2008. Fe'u gosodwyd ar 30 Ebrill 2008. Yn dod i rym ar 22 Mai 2008. Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac ail-wneud Rheoliadau Gwaith Stryd (Ffioedd Arolygu) (Cymru) (Diwygio) 2008 i gywiro gwall a nodwyd yn adroddiad y Pwyllgor ar y Rheoliadau hynny.
**SLC151 - Gorchymyn Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Dyfeisiadau a Gymeradwyir) (Cymru) (Rhif 2) 2008** Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 29 Ebrill 2008. Fe'u gosodwyd ar 30 Ebrill 2008. Yn dod i rym ar 22 Mai 2008. Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu ac ail-wneud Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Dyfeisiadau a Gymeradwyir) (Cymru) 2008 i gywiro gwallau a nodwyd yn adroddiad y Pwyllgor ar y Gorchymyn hwnnw. **SLC152 - Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) (Rhif 2) 2008** Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 29 Ebrill 2008. Fe'u gosodwyd ar 30 Ebrill 2008. Yn dod i rym ar 22 Mai 2008. Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac ail-wneud Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) 2008 i gywiro gwallau a nodwyd yn adroddiad y Pwyllgor ar y Rheoliadau hynny.

### Eitem 3: Offerynnau ac offerynnau drafft y bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2.

### Eitem 3.1: Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

**SLC149 - Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) (Diwygio) 2008** Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 25 Ebrill 2008. Fe'u gosodwyd ar 25 Ebrill 2008. Yn dod i rym ar 26 Ebrill 2008. - gweithredu newid yng Nghymru i reoliadau'r UE ar ddeunyddiau risg penodol i godi'r oedran y caiff asgwrn cefn anifeiliaid buchol ei ddynodi fel deunydd risg penodedig o 24 mis i 30 mis. (Mae hyn yn dychwelyd y terfyn oedran ar gyfer asgwrn cefn anifeiliaid buchol yn y DU i'r hyn yr ydoedd cyn mis Mai 2006 pan gafodd rheolau deunyddiau risg penodedig eu cysoni â'r rhai mewn Aelod-wladwriaethau eraill fel rhan o'r broses ar gyfer codi'r gwaharddiad ar allforio cig eidion a chynnyrch cig eidion o'r DU). **SLC154 - Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2008** (Saesneg yn unig) Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 30 Ebrill 2008. Fe'u gosodwyd ar 30 Ebrill 2008. Yn dod i rym: at ddiben rheoliad 29(c) - 1 Gorffennaf 2008; at bob diben arall - 1 Mai 2008. - rhoi ar waith yng Nghymru Gyfarwyddeb 2007/19/EC y Comisiwn Ewropeaidd sy'n diwygio Cyfarwyddeb 2002/72/EC drwy ddiweddaru'r rhestrau o sylweddau ac ychwanegion monomer a ganiateir ar gyfer eu defnyddio wrth gynhyrchu plastig sy'n dod i gysylltiad â bwyd a gosod amodau ar gyfer eu defnyddio'n ddiogel. Mae'r offeryn yn torri'r rheol 21 diwrnod gan iddo gael ei wneud a'i osod gerbron y Cynulliad ar 20 Ebrill 2008 a dod i rym (ar wahân i rai dirymiadau) ar 1 Mai 2008. Mae'r Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ wedi cynghori, yn ei lythyr at y Llywydd dyddiedig 30 Ebrill 2008, bod torri'r rheol wedi digwydd o ganlyniad i'r angen i drosi'r Gyfarwyddeb a'i rhoi ar waith erbyn 1 Mai 2008

### Eitem 4: Unrhyw fater arall

### Eitem 5: Dyddiad y cyfarfod nesaf